Cyfarfod / Meeting

**CYD-BWYLLGOR GwE**

**GwE JOINT-COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**9.30am DYDD LLUN, 8 GORFFENNAF 2013**

**9.30am MONDAY, 8 JULY 2013**

Lleoliad / Location
**VENUE CYMRU**
**LLANDUDNO**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**(01341) 424301**

GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk

## AELODAETH Y CYDBWYLLGOR/MEMBERSHIP OF THE JOINT COMMITTEE

**Aelodau â phleidlais/ Voting Members**

Cynghorydd/Councillor Ieuan Williams – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
Cynghorydd/Councillor Sian Gwenllian – Cyngor Gwynedd Council
Cynghorydd/Councillor Wyn Ellis Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council
Cynghorydd/Councillor Eryl Williams – Cyngor Sir Ddinbych/ Denbighshire County Council
Cynghorydd/Councillor Chris Bithell – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council
Cynghorydd/Councillor Michael Williams – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/Wrexham County Borough Council

**Aelodau Cyfetholedig heb Bleidlais/Co-opted Non-voting Members**

Esgobaeth Llanelwy/St Asaph Diocese – Carole Burgess
Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd/Primary Schools Representative – Jeremy Griffiths
Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd/ Secondary Schools Representative – Annwen Morgan
Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig/Special Schools Representative – Jonathan Morgan
Cynrychiolydd Llywodraethwr/ Governor Representative – sedd wag / vacant

**Swyddogion heb Bleidlais/Non-voting Officers**

Dr Gwynne Jones – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
Dewi R. Jones – Cyngor Gwynedd Council
Geraint James – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council
Karen Evans – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council
Ian Budd – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council
John Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/Wrexham County Borough Council

**Swyddogion yn bresennol/Officers in attendance**

Iwan Evans a Dafydd Edwards – Awdurdod Lletyol/Host Authority

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF 20/02/13**

**5. ADRODDIAD CYNNYDD**

**6. MATERION BUSNES**

6.1 Rheolwr Llinell Prif Swyddog
6.2 Cynrychiolaeth Penaethiaid ar y Cydbwyllgor
6.3 Calendr Cyfarfodydd

**CYD-BWYLLGOR GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION (CYSGODOL)**
**20.02.13**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Goronwy Parry (Cyngor Ynys Môn), Sian Gwenllian (Cyngor Gwynedd), Wyn Ellis Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Eryl Williams (Cyngor Sir Dinbych), Bernie Attridge (Cyngor Sir y Fflint), Michael Williams (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam)

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Carole Burgess (Cynrychiolydd Yr Esgobaeth), Jeremy Griffiths (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Annwen Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Dr Wendy Kitson (Cynrychiolydd Llywodraethwyr).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Dr Gwynne Jones (Cyngor Ynys Mon), Dewi R Jones (Cyngor Gwynedd), Geraint James (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Dinbych), Tom Davies (Cyngor Sir y Fflint) (Eilydd).

**Hefyd yn Bresennol:** Mohammed Mehmet (Prif Weithredwr Cyngor Sir Dinbych), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd), Elwyn Davies (Prif Swyddog Dros Dro GEGYR) – ar gyfer Eitemau 1 – 4 yn unig), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GEGYR) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau Cyngor Gwynedd) - ar gyfer Eitemau 1-4 yn unig).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint), John Davies (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd).

1. **CROESO**

Croesawyd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf o Gyd-bwyllgor Cysgodol Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a oedd yn achlysur hanesyddol iawn ym myd addysg i Ogledd Cymru.

**2. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Eryl Williams (Cyngor Sir Ddinbych) yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn 2013/14.**

**3. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Sian Gwenllian (Cyngor Gwynedd) yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn 2013/14.**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw Aelod oedd yn bresennol.

## 5. CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR

**Cyflwynwyd:** Cylch gorchwyl Cyd-bwyllgor GEGYR yn amlinellu aelodaeth a swyddogaethau dirprwyedig.

Adroddodd Mr Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd) yn dilyn penderfyniad gan y chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru cymeradwywyd cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor. O safbwynt aelodaeth, tynnwyd sylw at y cyfuniad o Aelodau pleidleisio a'r rhai hynny heb bleidlais yn unol â gofynion cyfreithiol. Nodwyd bod cytundeb rhwngawdurdod yn caniatau presenoldeb gan ddirprywon i fynychu'r Cydbwyllgor

**Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad.**

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 15, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 7. PENODI PRIF SWYDDOG

Cyflwelwyd 3 ymgeisydd am y swydd uchod a:

**Penderfynwyd: Penodi Huw Foster Evans**

**ADRODDIAD I'R CYDBWYLLGOR**

**8 GORFFENNAF 2013**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Prif Swyddog GwE (Interim) |
| **Pwnc:** | Adroddiad cynnydd ar ddatblygiadau a chyflwyniad GwE (y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol newydd). |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Diweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd a datblygiadau'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol newydd.

**2.0 Cefndir**

2.1 O'r chwe swyddogaeth allweddol fel y'u diffinnir yn yr achos busnes llawn a Chytundeb Cyd-Awdurdod GwE, disgwylir i GwE gyflawni pedair ohonynt. Wrth wraidd y gwasanaeth bydd egwyddor graidd sef cyflawni strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu a chynyddu rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog mewn cymunedau ar draws Cymru. Dyma'r swyddogaethau:

- cefnogi Awdurdodau Lleol i ymgymryd â'u swyddogaethau statudol o ran effeithiolrwydd ysgol;
- darparu cefnogaeth i Awdurdodau Lleol ac ysgolion gyda gweithgarwch gwella ysgol;
- ymgymryd yn benodol â chyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol (yng nghyswllt swyddogaethau craidd GwE);
- gwneud darpariaeth ar gyfer datblygu, cynnal ac adolygu fframweithiau rhanbarthol ar sail comisiwn.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Wrth gyflawni'r gwasanaeth ers y 1af o Ebrill mae GwE wedi dilyn rhaglen waith ar gyfer yr Arweinyddion System sy'n cynnwys y canlynol:

- ymgyfarwyddo ag ysgolion cyswllt - ymweld ag ysgolion yn ystod yr hanner tymor cyntaf er mwyn ymgyfarwyddo â datblygiadau ers ymweliadau monitro'r Hydref/Gwanwyn
- cefnogaeth cyn-arolwg
- cefnogaeth ôl-arolwg
- Ymweliad Monitro 3 gyda ffocws ar:
  - ddatblygiadau ers yr ymweliad blaenorol
  - Gallu i Wella (Erfyn Gwerthuso Arweiniad a Rheoli) (cwblhau matrics a thaflen ymweliad)
- Cyfarfodydd Tîm (Rhanbarthol ac Isranbarthol)
- Hyfforddiant ar gefnogi Llythrennedd a Rhifedd
- Cyfrannu at 'Asesiad Gwaelodlin y Gwasanaeth'
- Ymgyfarwyddo â :
  - Strwythurau Awdurdodau Lleol
  - Cytundeb Lefel Gwasanaeth
  - Rheoli Perfformiad Penaethiaid
  - System Gofnodi Ranbarthol
- 'Hwb' – Technoleg Gwybodaeth
- Hyfforddiant Estyn - aelod tîm mewn arolygiadau 'dilyn i fyny'
- Defnyddio Capita One

3.2 Fel rhan o lunio asesiad gwaelodlin, dadansoddwyd ymweliadau tymor yr hydref ar sail deilliannau ysgol yr Erfyn Gwerthuso Arweiniad a Rheoli. Mae'r wybodaeth graffigol a welir yn Atodiad 1 yn dangos canran ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ym mhob pedwar categori ar draws consortiwm Gogledd Cymru.

3.3 Yn dilyn cwblhau Ymweliad 3 ag ysgolion, fe gesglir data yn yr un modd ond yn seiliedig ar allu ysgolion i wella.

3.4 Mae Uwch Swyddogion GwE ac Uwch Swyddogion Awdurdodau Lleol yn cyfarfod yn dymhorol gyda Dr Brett Pugh o'r Uned Safonau i drafod perfformiad y consortiwm. Yn Atodiad 2 amlygir tafl-lwybrau consortia o'u cymharu â'r tafl-lwybr cenedlaethol hyd at 2014 fel y'u crynhowyd gan Uned Safonau Llywodraeth Cymru.

3.5 Gyda golwg ar y gefnogaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd, mae 10 ysgol uwchradd a 91 ysgol gynradd ar draws y rhanbarth wedi cychwyn ar y Rhaglen Gymorth Genedlaethol. Bydd yr ysgolion eraill yn cael mynediad i gymorth gan gychwyn naill ai ym mis Medi neu ym mis Tachwedd eleni. Atgoffwyd ysgolion bod angen clustnodi arian o'u Grant Effeithiolrwydd Ysgolion er mwyn rhyddhau athrawon i gydweithio â'u Partner Rhaglen Gymorth Genedlaethol. Mae'r Canllaw ar gyfer Ysgolion (Rhan 1) ar gael nawr ar wefan Dysgu Cymru (Learning Wales) neu trwy ddilyn y ddolen hon:

http://learning.wales.gov.uk/resources/nsp-guide-part-1/;jsessionid=28ED29E183D649C4FE521151B1F86AAA?skip=1&lang=cym

Rydym ar hyn o bryd yn penodi Partneriaid Cyswllt a fydd yn gweithio mewn ysgolion dynodedig i gefnogi cynllunio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'i weithredu. Bydd y Partneriaid Cyswllt yn cychwyn ar eu gwaith fis Medi.

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod pob Arweinydd System yn 'Arweinydd System Llythrennedd a Rhifedd' cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar 24 Mai er mwyn rhannu gwybodaeth am y Rhaglen Gymorth Genedlaethol a'r profion cenedlaethol.

3.6 Mae 'Grŵp Defnyddwyr' y Gwasanaeth wedi cyfarfod ambell waith yn ystod y misoedd diwethaf. Gellir crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd fel a ganlyn:

- Rhaglen Waith Tymor yr Haf;
- Adolygiad Personol a Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Arweinyddion System;
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth (rhwng GwE a'r chwe awdurdod lleol);
- Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd.

3.7 Cwblhawyd y broses penodi staff GwE. Penodwyd wyth Arweinydd System y tymor hwn - pum Pennaeth a thri Dirprwy Bennaeth o gefndir Uwchradd, Cynradd ac Ysgolion Arbennig. Rydym hefyd wedi penodi Cyfieithydd a Swyddog Cefnogi Gweinyddol.

3.8 Cynhelir cyfarfodydd ymgynghori gydag aelodau staff unigol o ran eu hamodau a thelerau gwaith. Bydd hyn yn golygu ymgynghori gyda'u Hundeb Llafur (ASPECT). Bydd hyn yn digwydd rhwng canol a diwedd Gorffennaf.

3.9 Mae'r Prif Swyddog Interim wedi cymryd rhan mewn Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n ymwneud â'r pedwar consortia er mwyn pennu cynllun hyfforddi a datblygu cenedlaethol posibl ar

gyfer Arweinyddion System. Penllanw'r gwaith hwn ydy ystyriaeth o'r argymhellion isod gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Llywodraeth Cymru:

- cytuno ar gynllun hyfforddi a datblygu cenedlaethol ar gyfer Arweinyddion System;
- cytuno ar gydrannau'r rhaglen fel sail ar gyfer trafodaeth gyda rhanddeiliaid allweddol;
- datblygu fframwaith cymwyseddau fel sail ar gyfer cefnogi dewis, datblygu a rheoli perfformiad Arweinyddion System yn y dyfodol;
- mae cymryd rhan yn y cynllun hyfforddi a datblygu Arweinydd System yn orfodol i bob Arweinydd System yng Nghymru;
- cefnogir y cynllun gan broses Rheoli Perfformiad cenedlaethol ar gyfer Arweinyddion System, a bod y cynllun yn cefnogi proses o'r fath;
- cytuno ar fframwaith achrediad ar lefel Meistr fel opsiwn sydd ar gael i Arweinyddion System a'u cyflogwyr;
- Llywodraeth Cymru a'r Consortia i gytuno ar gynllun gweithredu i sefydlu'r cynllun ym mhob Consortia yn ystod tymor yr Hydref 2013;
- ymgynghori â'r partneriaid, undebau llafur a'r cymdeithasau athrawon priodol ynglŷn â datblygu a chyflawni'r cynllun;
- sefydlu bwrdd rhanddeiliaid allweddol i sicrhau cyflawni'r cynllun hyfforddi a datblygu o fewn terfynau amser cytunedig.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 nodi datblygiadau GwE ers ei gychwyn ar 1 Ebrill 2013

4.1.2 gymeradwyo bod yr Uwch Dîm Rheoli yn paratoi blaen-raglen o ddatblygiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013/14

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghoriad yr ymgymerwyd â fo**


8.1 Dim un o ganlyniad uniongyrchol i'r adroddiad hwn


**9.0 Atodiadau**

**Atodiad 1 -** Perfformiad mewn perthynas â Deilliannau Categori Cynradd/Uwchradd


**Atodiad 2** - Tafl-lwybrau Consortia o'u cymharu â Thafl-lwybr Cenedlaethol hyd at 2014 (Uned Safonau Llywodraeth Cymru)

**Atodiad 1 - Perfformiad mewn perthynas â Deilliannau Categori Cynradd/Uwchradd**




Categori Ysgolion Uwchradd - Consortiwm
Secondary School Category - Consortium
60.0%
50.0%
40.0%
30.0%
20.0%
10.0%
0.0%
Cam1
Cam2
Cam3
Cam4
Cam1
Cam2
Cam3
Cam4

**Atodiad 2 - Tafl-lwybrau Consortia o'u cymharu â Thafl-lwybr Cenedlaethol hyd at 2014 (Uned Safonau Llywodraeth Cymru)**



**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**8 GORFFENNAF 2013**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Arweiniol (Cadeirydd) y Consortiwm |
| **Pwnc:** | Prif Swyddog GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor ystyried trefniadau rheoli llinell ar gyfer y Prif Swyddog a'u cymeradwyo.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn cynnwys:

2.1.1 goruchwylio rheolaeth y Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i fod yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel yr adlewyrchir yn yr Achos Busnes Llawn, yn y Cytundeb Cyd-asiantaethol ac yn y Cynlluniau Busnes a Chomisiynu Blynyddol a gytunwyd;

2.1.2 penodi Prif Swyddog y Gwasanaeth;

2.1.3 penderfynu ar gamau gweithredu disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Y cyngor gan adnoddau dynol a swyddog monitro yr awdurdod lletyol yw bod angen rheolwr llinell o fewn yr awdurdod lletyol ar gyfer materion gweinyddol, e.e. trefniadau salwch, gwyliau, costau teithio ac ati.

Mae'r awdurdod lletyol yn ymgymryd â rôl debyg gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd lle mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn gweithredu fel rheolwyr llinell.

3.2 Yn unol â Chylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor, mae angen rheolwr llinell broffesiynol a'r awgrymiad yw mai'r Cyd-bwyllgor (neu banel o'r Cyd-bwyllgor) sy'n ymgymryd â'r rôl.

3.3 Cydnabyddir hefyd y bydd angen cytuno ar reolwr llinell proffesiynol dydd-i-ddydd i weithredu ar ran y Cyd-bwyllgor.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r isod fel trefniadau rheolwr llinell i'r Prif Swyddog:

4.1.1 Cymeradwyo Cyfarwyddwr Corfforaethol yr awdurdod lletyol fel rheolwr llinell gweinyddol.

4.1.2 Cymeradwyo panel o'r Cyd-bwyllgor ar gyfer prosesau ffurfiol a statudol rheoli llinell proffesiynol gan gynnwys rheoli perfformiad.

4.1.3 Cymeradwyo mai Cyfarwyddwr Arweiniol (Cadeirydd) y Consortiwm sydd yn ymgymryd â rôl rheolwr llinell dydd-i-ddydd ar ran y Cyd-bwyllgor.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran Cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau Personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghoriad yr ymgymerwyd â fo**

8.1 Ymgynghorwyd ag Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Swyddog Monitro yr awdurdod lletyol; yn ogystal â Grwp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg Gogledd Cymru.

**9.0 Atodiadau**

D/B

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**8 GORFFENNAF 2013**

**Adroddiad gan:** Cyfarwyddwr Arweiniol y Consortiwm

**Pwnc:** Cynrychiolaeth Penaethiaid ar y Cyd-bwyllgor

## 1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Ystyried y cais o ran Cynrychiolaeth Penaethiaid ar y Cyd-bwyllgor

## 2.0 Cefndir

2.1 Penderfynwyd gan chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru ym mis Mawrth 2012:
2.1.1 Cefnogi a chymeradwyo'r Achos Busnes Llawn i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol erbyn mis Ebrill 2013.
2.1.2 Cefnogi argymhelliad Bwrdd Rhaglen Addysg Gogledd Cymru i sefydlu Cyd-bwyllgor ac i fabwysiadu Awdurdod Lletyol fel model llywodraethu.

2.2 Yn ystod mis Awst a mis Medi 2012 fe gymeradwywyd Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor ganddynt.

2.3 Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor, yn unol â'r hyn a amlinellir isod, yn adlewyrchu'r strwythur a nodwyd yn yr Achos Busnes:

| **Aelodau â Hawl i Bleidleisio** | **Aelodau sy'n Swyddogion - Dim Pleidlais** |
|---|---|
| 6x Aelod Portffolio Addysg<br>*Un o bob Awdurdod Lleol Gogledd Cymru* | 6x Prif Swyddog Addysg Statudol<br>*Un o bob Awdurdod Lleol Gogledd Cymru* |
| **Aelodau Cyfetholedig - Dim Pleidlais** | **Swyddogion i Fynychu** |
| 1x Cynrychiolydd Esgobaeth<br>*wedi'u henwebu o Esgobaeth Wrecsam, Llanelwy a Bangor am dymor dwy-flynedd yn cylchdroi* | 1x Cynrychiolydd Cyfreithiol |
| 1x Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd<br><br>1x Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd<br><br>1x Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig | 1x Cynrychiolydd S151 |

| | |
|---|---|
| 1x Cynrychiolydd Llywodraethwyr | Arbenigwyr eraill yn ôl y gofyn |

Yn unol â'r Achos Busnes Llawn, bydd Grŵp Defnyddwyr Llywodraethwyr ac Ysgolion GwE yn enwebu cynrychiolydd o'r ysgolion Uwchradd, yr ysgolion Cynradd a'r ysgolion Arbennig a chynrychiolydd o'r Llywodraethwyr i gymryd y seddau priodol ar y Cyd-bwyllgor.

2.4 Yn unol â'r cyfansoddiad, penodwyd y cynrychiolwyr isod yn ystod cyfarfod Grŵp Defnyddwyr GwE a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2013 (cofnodion y cyfarfod wedi'u cynnwys yn Atodiad 1).

- Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd: Annwen Morgan, Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn
- Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd: Jeremy Griffiths, Ysgol Gwynedd, Sir y Fflint
- Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig: Jonathan Morgan, Ysgol y Gogarth, Conwy.

2.5 Codwyd pryderon yn ystod y cyfarfod o ran cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor ac yn dilyn hyn cafwyd cais gan Claire Armitstead (datganiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1)

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Ceisiwyd cyngor gan Swyddog Monitro'r awdurdod lletyol o ran y cais cyn trafodaeth Grŵp Strategol y Cyfarwyddwyr Addysg.

3.2 Dyma'r prif bryderon a godwyd:

3.2.1 Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn adlewyrchu'r strwythur aelodaeth fel y'i gosodir yn yr Achos Busnes Llawn a'r Cytundeb Cyd-Awdurdod ac fe'i cymeradwywyd gan bob un o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Felly mae cyfleoedd sylweddol wedi bod i ymgynghori ar aelodaeth.

3.2.2 Ail ymweld â'r mater mor fuan wedi sefydlu'r Cyd-bwyllgor. Efallai yr adnabyddir cywiriadau pellach o fewn y flwyddyn gyntaf.

3.2.3 Bydd unrhyw gywiriad i'r cyfansoddiad yn gofyn am gael ei drafod a'i gymeradwyo gan Gabinet chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.

3.2.4 Potensial ail agor trafodaethau eto ar gydbwysedd cynrychiolaeth cyfrwng-Cymraeg a chynrychiolaeth cyfrwng-Saesneg a'r diffiniadau amrywiol o'r rhain.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Nodi'r pryderon a godwyd yn y datganiad gan Claire Armitstead.

4.1.2 Nodi'r pryderon a adnabuwyd a'u hystyried gan Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletyol a Grŵp Strategol y Cyfarwyddwyr Addysg.

4.1.2 Nodi bod cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor ar ei ffurf bresennol yn adlewyrchu'r strwythur fel y'i gosodir yn yr Achos Busnes Llawn a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru a chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.

4.1.3 Cytuno i adolygu cynrychiolaeth penaethiaid ar y Cyd-bwyllgor wedi 12 mis o fod yn weithredol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran Cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghoriad yr ymgymerwyd â fo**

8.1 Ymgynghorwyd â Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletyol a Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg Gogledd Cymru.

**9.0 Atodiadau**

Atodiad 1 – Cofnodion cyfarfod Grŵp Defnyddwyr (08/02/13) - eitemau 3 a 4

Atodiad 2 – Datganiad gan Claire Armitstead (13/05/13)

**Atodiad 1 – Cofnodion Grŵp Defnyddwyr GwE (07/02/13)**

**GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol)**
**Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr**
14.00 Dydd Iau 7 Chwefror 2013
Technium Optic, Llanelwy

**Yn bresennol:**

| **Enw** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Cynrychiolwyr Uwchradd | |
| Peter Agnew | Wrecsam |
| Claire Armitstead | Sir Ddinbych |
| Annwen Morgan | Ynys Môn |
| David Mountfort (ar ran Rosemary Jones) | Sir y Fflint |
| Cynrychiolwyr Ysgolion Arbennig | |
| Jonathon Morgan | |
| Cynrychiolwyr Llywodraethwyr | |
| Derlwyn Hughes | Ynys Môn |
| Alison Fisher | Wrecsam |
| Wendy Kitson | Conwy |
| Cynrychiolwyr Cynradd | |
| Gareth Hughes | Ynys Môn |
| Linda Houston | Wrecsam |
| Jeremy Griffiths | Sir y Fflint |
| Julia Buckley Jones | Conwy |
| Tim Redgrave | Sir Ddinbych |
| Alun Jones | Sir Ddinbych |
| Consortiwm / GEGYR | |
| Geraint James (GJ) | Cadeirydd y Consortiwm |
| Elwyn Davies (ED) | Prif Swyddog (Interim) GEGYR |
| Susan Owen Jones (SOJ) | Rheolwr Busnes a Chyllid GEGYR |

**3. Rôl y Grŵp Defnyddwyr a phenodiadau i'r Cyd-bwyllgor**

Cododd aelodau fater dryswch ynglŷn â rôl y grŵp hwn a Grŵp Penaethiaid Consortiwm Addysg Gogledd Cymru. Eglurodd GJ y byddai'r Grŵp Penaethiaid, unwaith byddai'r cynrychiolwyr Llywodraethwyr wedi ymuno ag ef, yn gweithredu hefyd fel Grŵp Defnyddwyr GEGYR. Byddai hyn yn osgoi dyblygu cyfarfodydd a hefyd yn sicrhau cysondeb o ran aelodaeth y grwpiau.

Mynegwyd ymddiheuriadau i'r rhai a oedd wedi bod yn ddigon caredig i wirfoddoli i gynrychioli'r Grŵp Defnyddwyr ar y Cyd-bwyllgor yn y cyfarfod diwethaf. Fodd bynnag, gan nad oedd cynrychiolwyr llywodraethwyr yn y cyfarfod hwnnw nid oedd yn gyfarfod llawn o'r Grŵp Defnyddwyr ac felly roedd angen ail ymweld â'r penderfyniad. Roedd pryderon hefyd wedi eu codi am sicrhau cynrychiolaeth ar draws y rhanbarth, nid yn unig yn ddaearyddol ond hefyd yn ieithyddol.

Teimlai'r grŵp y dylai bod cynrychiolydd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gyfer cynradd ac uwchradd ar y Cyd-bwyllgor. Adroddwyd bod cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor yn rhan o'r Cytundeb Cyd-Awdurdod a oedd yn cael ei gwblhau ar yr adeg honno. Nodwyd hefyd bod aelodaeth y Cyd-bwyllgor wedi'i gynnwys yn yr Achos Busnes Llawn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012. Cytunwyd i

ofyn am adolygu'r aelodaeth gan y Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfod llawn cyntaf a cheisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol yr awdurdod lletyol.
**Gweithredu: GJ / ED / SOJ i geisio cyngor gan yr awdurdod lletyol a chynnwys hwnnw fel eitem i'w drafod yng nghyfarfod llawn cyntaf y Cyd-bwyllgor.**

Fe enwebwyd ac etholwyd yr aelodau a ganlyn o'r grŵp i gynrychioli'r Grŵp Defnyddwyr ar y Cyd-bwyllgor:

Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd: Jeremy Griffiths, Ysgol Gwynedd, Sir y Fflint
Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd: Annwen Morgan, Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn
Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig: Jonathon Morgan, Ysgol y Gogarth, Conwy
Cynrychiolydd Llywodraethwyr: Wendy Kitson, Conwy

## 4. Diweddariad ar benodi'r Prif Swyddog

Adroddwyd y byddai'r ganolfan asesu ar gyfer swydd y Prif Swyddog yn digwydd ddydd Llun 18 Chwefror 2013, a'r cyfweliad ffurfiol ddydd Mercher 20 Chwefror 2013. Cadarnhawyd y byddai'r panel cyfweld yn cynnwys aelodau o'r Cyd-bwyllgor.

Fe ail adroddodd y grŵp bryderon am yr angen am gynrychiolaeth ddaearyddol ac ieithyddol, yn enwedig o ran penodi'r Prif Swyddog.

Er y penodwyd ac yr etholwyd yr uchod fel cynrychiolwyr y Grŵp Defnyddwyr, cytunwyd i geisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol yr awdurdod lletyol am y posibilrwydd o ychwanegu dau gynrychiolydd ychwanegol (h.y. cyfrwng Saesneg uwchradd a chyfrwng Cymraeg cynradd), i fod yn sylwebyddion yn benodol ar gyfer penodi'r Prif Swyddog. Hefyd bod Grŵp Strategol y Cyfarwyddwyr Addysg (yn eu cyfarfod ddydd Gwener 08/02/13) yn cadarnhau'r cais.

Fe enwebwyd ac etholwyd yr aelodau a ganlyn o'r grŵp fel cynrychiolwyr ychwanegol:

Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd: Gareth Hughes, Ysgol y Borth, Ynys Môn
Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd: Claire Armitstead, Rhyl High School, Sir Ddinbych

**Gweithredu: GJ / SOJ i godi hyn yn Grŵp Strategol y Cyfarwyddwyr Addysg ac i geisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol yr awdurdod lletyol.**

**Atodiad 2**

Claire Armitstead (e-bost) - 13 Mai 2013

*Aelodaeth y Cyd-bwyllgor*

*Fel rhan o Grŵp Penaethiaid GwE teimlwn ei bod yn hynod bwysig fy mod yn lleisio fy mhryderon o ran aelodaeth y Cyd-bwyllgor.*

*Yn ystod ein cyfarfod ym mis Ionawr gofynnodd y Cadeirydd am wirfoddolwyr i ddod yn aelodau o'r bwrdd. A dweud y gwir, doedd dim ymateb ysgubol, a theimlwn reidrwydd i wirfoddoli fel y cyfryw. Ar y pryd, gofynnwyd i mi, i bennaeth ysgol arbennig ac i bennaeth ysgol gynradd ddwyieithog ymgymryd â'r rôl. Dywedon ein bod yn teimlo bod angen ystyried addysg trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.*

*Nid oedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfod ac yn ystod y cyfarfod dilynol ym mis Chwefror cododd un o'n cydweithwyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg yr un mater. Datganwyd bod angen cynrychiolydd Cyfrwng Cymraeg, Cyfrwng Saesneg ac Ysgol Arbennig. Gwnaeth fy nghydweithiwr cynradd sawl ymgais i gamu lawr ac fe'i hanogwyd i beidio nes i mi deimlo nad oedd gen i unrhyw ddewis.*

*Pan ddatganwyd yn ddiweddarach mai'r grŵp hwn fyddai'r panel penodi ar gyfer y Prif Weithredwr mynegais fy nymuniad i dynnu fy nghais yn ei ôl. Er mwyn symud ymlaen penderfynodd y grŵp y dylid rhoi gwahoddiad i ddau aelod ychwanegol - yn cynrychioli Uwchradd Cyfrwng Saesneg a Cynradd Cyfrwng Cymraeg - i fynychu'r cyfweliad yn y tymor byr ac i gynrychioli'r ddwy iaith ar y cydbwyllgor yn y tymor canolig.*

*Yn ystod ein cyfarfod yr wythnos hon daeth yn glir nad oedd yr un o'r pwyntiau gweithredu hyn i'w rhoi ar waith. Ni roddwyd gwahoddiad i'r un o'r aelodau ychwanegol i gymryd rhan yn y cyfweliad ac roedd yn fwriad gan y cydbwyllgor i gynnwys yr un aelodaeth am 12 mis arall. Gallaf ddeall fod hyn efallai oherwydd camddealltwriaeth ond mewn gwirionedd credaf ei fod yn bwrw amheuaeth ar gyfansoddiad y grŵp..*

*Pe byddwn yn gwybod na fyddai'r ateb cyflym a gynghorodd ein grŵp yn cael ei roi ar waith, ni fyddwn wedi camu i lawr **ar unrhyw gyfri.** Credaf hefyd y byddai'r grŵp yn gyffredinol wedi dilyn gweithdrefnau mwy llym er mwyn penodi i'r panel cynrychioliadol hwn ac y byddai pleidlais wedi ei chynnal ond ni ddigwyddodd hyn.*

*Byddwch yn ymwybodol fy mod yn llwyr gefnogi gweithio consortiwm a fy mod yn rhan o'r grŵp penaethiaid oherwydd fy mod eisiau ei weld yn llwyddo. Fodd bynnag, rwy'n bryderus fod y broses a gwblhawyd gan ein grŵp yn dibrisio'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd i greu perthynas waith trwyadl a thryloyw.*

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**8 GORFFENNAF 2013**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Busnes a Chyllid

**Pwnc:** Calendr Cyfarfodydd

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y rhaglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1 cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynigir dau ddyddiad ar gyfer dau gyfarfod cyntaf 2013/14 fel Atodiad A

3.2 Nid ydym wedi gallu cynnig dyddiad ar gyfer y trydydd cyfarfod oherwydd diffyg cadarnhad ar gyfarfodydd Cyngor yn ystod y cyfnod arfaethedig.

3.3 Pe byddai angen gwneud newidiadau i'r calendr, cynigir bod y Cadeirydd yn cael ei awdurdodi i wneud newidiadau yn dilyn ymgynghori priodol.

3.4 Cynigir mai'r ail gyfarfod fydd y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

3.5 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad canolog yng Ngogledd Cymru, i.e Conwy.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Cymeradwyo'r cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad A.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw effeithiau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghoriad yr ymgymerwyd â fo

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi cyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

## 9.0 Atodiadau

**Atodiad 1** Dyddiadau arfaethedig i'w cytuno a'u mabwysiadu

**Atodiad 1**

| **CYFARFOD** | **DYDDIAD** | **AMSER** | **LLEOLIAD** |
|---|---|---|---|
| Cyd-bwyllgor GwE | 6 Tachwedd 2013 | prynhawn | Conwy |
| Cyd-bwyllgor GwE a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 12 Mawrth 2014 | prynhawn | Conwy |